**Alun Davies AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**
**Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:SF/AD/0598/12

Vaughan Gething AC
Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a
Gorffen ar y Polisi Amaethyddol
Cyffredin

Mawrth 2012

**Ymateb i Argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Cynigion i Ddiwygio'r PAC**

Diolch am roi canfyddiadau cychwynnol y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin i mi.

Mae canfyddiadau'r Grŵp yn dra defnyddiol ac rwyf wedi atodi fy marn a'm hymatebion i'r materion a godwyd. Hefyd rwyf wedi cynnwys copi o'm hymatebion i'r Comisiwn Ewropeaidd. Pe bai'n ddefnyddiol i chi, gofynnaf i'm swyddogion friffio aelodau'r Grŵp a rhoi copïau o'r papurau sy'n cael eu hanfon at grwpiau o randdeiliaid amrywiol o dro i dro.

Os teimlwch fod hyn o fudd, rhowch wybod i'm Swyddfa Bersonol ac fe wnân nhw'r trefniadau.

Edrychaf ymlaen at gydweithio pellach â'r grŵp.

**Alun Davies AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar y Polisi Amaethyddol Cyffredin i'r diwygiadau arfaethedig i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin**

**Mawrth 2012**

---

Mae'n hanfodol bwysig ein bod yn cael y fargen orau i ffermwyr Cymru o'r trafodaethau â'r Comisiwn ar y diwygiadau i'r PAC ac rwy'n croesawu gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r adroddiad hwn.

Er ei bod yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau terfynol am gynigion yr UE, yn sicr tan i'r Rheoliadau Gweithredu gael eu rhyddhau'n nes ymlaen eleni, maen nhw'n rhoi sylfaen y gallwn ni ei defnyddio i drafod.

Mae fy swyddogion a minnau'n ymwneud yn ddyfal â'r agenda Diwygio. Mae gwaith ar y gweill yng Nghaerdydd, Llundain, Brwsel a Strasbwrg i gyflwyno anghenion Cymru'n gadarn ac yn rhesymegol ac rwy'n falch fod gwaith ac Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn gefnogol.

Er mwyn annog trafodaeth ar y rheoliadau arfaethedig cyhoeddais Sgwrs PAC ym mis Rhagfyr i weld beth yw barn ffermwyr yng Nghymru am y cynigion. 31 Mawrth 2012 yw'r dyddiad cau i sylwadau. Mae hon yn elfen bwysig o'n cynllunio a bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn derbyn crynodeb o'r pwyntiau allweddol maes o law.

Mae'r argymhellion sydd yn adroddiad y Grŵp yn cyd-fynd yn agos â barn Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd am y rheoliadau drafft ac mae'n bleser gennyf eu derbyn i gyd. Byddwn yn ystyried eich canfyddiadau wrth i ni ddatblygu ein camau gweithredu i roi sylw i'ch blaenoriaethau allweddol, sef:

- bod trefniadau digonol a theg yn ystod y cyfnod pontio cyn i wledydd symud i daliadau'n seiliedig ar arwynebedd;
- bod cynigion gwyrdd digon hyblyg i bob aelod-wladwriaeth / rhanbarth unigol fedru eu haddasu'n ôl eu cyd-destun amgylcheddol ac amaethyddol nhw;
- bod cyllid Datblygu Gwledig yn cael ei ddosbarthu'n deg; a
- bod Llywodraeth Cymru yn cwblhau digon o waith modelu i ddarparu gwybodaeth ar gyfer y trafodaethau, ac ar gyfer datblygu ffyrdd o roi'r cynigion ar waith.

**Nodir ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**Argymhellion 1&2**
Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd egluro ar frys a fydd gan weinyddiaethau rhanbarthol y pŵer i ddatblygu taliadau isranbarthol.

Os oes gan Lywodraeth Cymru y pŵer i ddatblygu taliadau'n seiliedig ar isranbarthau, mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymell y dylid cwblhau

gwaith modelu i weld a fyddai defnyddio taliadau isranbarthol yn ffordd gost effeithiol ac effeithlon o helpu i liniaru effaith trosglwyddo i daliadau'n seiliedig ar arwynebedd. Rydym yn argymell bod canlyniadau'r gwaith modelu hwn yn cael ei rannu â'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a rhanddeiliaid PAC eraill erbyn mis Rhagfyr 2012.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhellion hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn deall yn iawn yr hyblygrwydd y byddai hyn yn ei gynnig ac ar hyn o bryd mae'n gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd egluro a fydd gan weinyddiaethau rhanbarthol y pŵer i ddatblygu taliadau is-ranbarthol.

Yn y cyfamser rydym wrthi'n ddyfal yn gweld beth fyddai effaith bosib dull gwahaniaethol ac rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid wrth wneud hyn. Mae gwaith modelu wedi digwydd eisoes ar effaith taliadau gwahaniaethol. Mae un dadansoddiad yn seiliedig ar y categorïau Ardal Lai Ffafriol (ALFf) presennol; byddai hyn yn gallu caniatáu taliadau gwahaniaethol ar gyfer pedwar math o dir - Ardal dan Anfantais Fawr, Ardal dan Anfantais, Tir nad yw yn yr Ardal Lai Ffafriol (tir isel) a Thir Comin. Gallai dadansoddiadau posib eraill ystyried y mapio ar gyfer tir comin a rhostir.

Byddwn yn rhannu ein gwaith modelu pan fydd wedi'i gwblhau.

O ran y pryderon am y cyfnod pontio mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw'r cyfnod pontio 5 mlynedd arfaethedig yn cydnabod yr effaith sy'n gysylltiedig â'r symud i daliadau'n seiliedig ar arwynebedd a'i fod yn gwbl annigonol i alluogi ffermwyr i wneud yr addasiadau angenrheidiol i'w mentrau ffermio. Byddai'n well gan Lywodraeth Cymru gyfnod pontio 10 mlynedd a fyddai'n caniatáu taliadau amrywiadwy'n seiliedig ar arwynebedd ar draws Cymru o 2014, gyda'r nod o gael cyfradd unffurf ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Mae mawr angen lliniaru'r hyn a allai fod fel arall yn ailddosbarthu sylweddol ar y derbyniadau o dan y Cynllun Taliad Sengl presennol ac mae cyfnod pontio estynedig yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

O 2014 byddai'r Rheoliadau drafft yn gofyn am raniad gorfodol o 40 y cant yn seiliedig ar arwynebedd a 60 y cant yn daliadau hanesyddol, a hynny fel cam cyntaf tuag at 100 y cant yn daliadau'n seiliedig ar arwynebedd yn 2019/2020. Mae ein modelu'n dangos bod hyn yn newid enfawr ym Mlwyddyn 1 i'r rhan fwyaf o ddaliadau ffermio ac ni allwn gefnogi newid mor sydyn. Mae Llywodraeth Cymru yn pwyso am hyblygrwydd fel y gall bennu cyflymder y newid i daliadau llawn yn seiliedig ar arwynebedd dros y cyfnod pontio, er mwyn lliniaru effaith y newid.

**Goblygiadau Ariannol**

Bydd unrhyw gostau modelu ychwanegol yn cael eu cynnwys yng nghyllidebau'r rhaglenni presennol.

Mae edrych ymlaen i weld beth fydd costau gweinyddu'r system yn y dyfodol yn anos. Ni fyddai symud ymlaen gyda graddfeydd gwahaniaethol heb gost i Lywodraeth Cymru. Ar sail y profiad o gyflwyno'r Cynllun Taliad Sengl yn 2005, byddai angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi miliynau lawer o'i hadnoddau ei hun i gyflwyno'r newidiadau angenrheidiol i seilwaith y system daliadau er mwyn cyflwyno'r drefn daliadau newydd yn 2014. Byddai taliadau lluosog/gwahaniaethol yn ychwanegu at gostau datblygu'r system daliadau, ac yn cynyddu'r cymhlethdodau gweinyddol, dilysu ac archwilio. Byddai rhai dewisiadau graddfeydd gwahaniaethol yn golygu bod angen ailfapio arwynebedd amaethyddol Cymru, a fyddai'n ddrud ac yn llyncu amser. Rydym yn ymwybodol y gallai fod goblygiadau gan y cymhlethdod ychwanegol o ran ein gallu i gael ein systemau'n barod ar gyfer 2014 a chynnal rhyddhau taliadau'n sylweddol o 1 Rhagfyr bob blwyddyn.

**Argymhelliad 3**
Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â gwaith modelu i fesur effaith y cynigion presennol yng nghyswllt hawlio taliadau a'r gwahanol ddewisiadau a gyflwynwyd. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod canlyniadau'r gwaith modelu hwn ar gael i randdeiliaid a'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen erbyn mis Rhagfyr 2012.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Rydym eisoes yn modelu nifer o ganlyniadau posib ac yn gwneud hynny gan drafod â grwpiau o randdeiliaid. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi trafod a ellid newid y system hawliau ei hun. Bydd Llywodraeth Cymru'n trafod rhai syniadau â'r Comisiwn ynghylch beth yw nod y system hawliau a gweld sut gellir cyrraedd y nod hwn i Gymru. Bydd angen ymgymryd â rhagor o waith modelu ar ôl i'r Comisiwn ymateb.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim; mae'r modelu'n cael ei wneud yn fewnol ac o fewn cyllidebau rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 4**
Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth glir yn y trafodaethau i'r angen i roi mwy o hyblygrwydd i'r Aelod-wladwriaethau / Rhanbarthau o ran y gofynion gwyrdd. Dylid bodloni'r gofynion gwyrdd mewn modd sy'n addas i anghenion amgylcheddol ac amaethyddol lleol a hynny o fewn fframwaith cyffredin o flaenoriaethau Ewropeaidd cyson.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru'n dal i wrthwynebu'r cynigion o ran y gofynion gwyrdd a bydd yn cyflwyno nifer o awgrymiadau i'r Comisiwn.

Rydym o'r farn fod cynigion yr UE yn rhy gul a chaeth i weithio ar yr holl dir ffermio ledled Ewrop a bod angen mwy o ryddid fel eu bod yn addas i amodau ffermio ac amgylcheddol lleol. Rydym yn trafod y rhain â'n rhanddeiliaid ac yn gweithio ar nifer o awgrymiadau penodol i roi mwy o ddewisiadau na'r tri y mae'r Comisiwn wedi'u cynnig.

Nid ydym yn cefnogi unrhyw gymhelliad artiffisial i dynnu tir cynhyrchiol o gael ei ddefnyddio.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol yng Nghymru ac nid ydym eisiau gweld cynnydd y gorffennol yn cael ei danseilio. Felly byddwn yn pwyso fel bod cymryd rhan yn Glastir yn cael ei gydnabod yn llwybr mynediad awtomatig i'r gofynion gwyrdd.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim; mae'r gwaith yn cael ei wneud yn fewnol ac o fewn cyllidebau rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru.

**Argymhellion 5 a 6**
Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymell bod Llywodraeth Cymru'n gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd esbonio a fydd y rhanbarthau'n cael y pŵer o drosglwyddo arian o'r naill golofn i'r llall.

Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymell y dylai sicrhau tegwch yn y modd y dyrennir arian ar gyfer datblygu gwledig fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Rhaid i Lywodraethau Cymru a'r DU sicrhau nad yw'r DU a Chymru yn parhau i gael llai na neb arall yn yr UE i'w wario fesul hectar ar ddatblygu gwledig.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhellion hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn rhannu barn y Grŵp ar y pwyntiau hyn ac yn ymwybodol iawn bod angen trafod a sicrhau cyfran fwy o ddarpariaeth cyllido'r UE i olynydd Cynllun Datblygu Gwledig Cymru. Rydym yn cefnogi dadl y DU nad yw'r DU a Chymru wedi cael cyfran deg o arian yr UE am waith Datblygu Gwledig a byddwn yn parhau i bwyso am ddyraniad teg.

O ran argymhelliad 5 mae'r cynigion drafft yn nodi y gall Aelod-wladwriaethau drosglwyddo hyd at 10 y cant o'u terfynau uchaf cenedlaethol blynyddol i gefnogi gweithgarwch datblygu gwledig o dan Golofn 2. O dan y cynllun datblygu gwledig presennol (2006-20013) y ffigwr cyfatebol (drwy amryw ffurfiau ar fodiwleiddio) oedd tua 9% y flwyddyn, ar gyfartaledd. Byddai gan nifer o Aelod-wladwriaethau, gan gynnwys y DU, hawl i ddewis trosglwyddo hyd at 5% o'r cyllid Ewropeaidd sy'n cael ei roi ar gyfer gweithgarwch y Cynllun Datblygu Gwledig i Golofn 1.

Byddai'n ymddangos fod y mecanweithiau hyn ar gyfer symud arian rhwng Colofnau'r PAC yn disodli'r system modiwleiddio bresennol. Defnyddir

modiwleiddio yng Nghymru i ariannu gweithgarwch y Cynllun Datblygu Gwledig, gan gynnwys cynlluniau amaeth-amgylcheddol, i ymateb yn uniongyrchol i'r ariannu annheg y mae'r UE yn ei roi. Mae sicrhau bod hyblygrwydd o'r fath yn wirfoddol ac y gellir ei ddefnyddio'n rhanbarthol yn hytrach nag ar lefel y DU yn faterion allweddol i Gymru.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu i lawr o gyllidebau rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 7**
Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymell bod Llywodraeth Cymru, wrth iddi ddehongli a gweithredu'r systemau rheoli a chosbi sy'n gysylltiedig ag arian y PAC, yn sicrhau bod y systemau hynny'n gymesur ac yn seiliedig ar risg.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu i gyflawni argymhellion yr adroddiad Hwyluso'r Drefn, sy'n ceisio mynd i'r afael â phroblemau wrth weinyddu rheoliadau cyfredol PAC. Mae nifer o argymhellion yr adroddiad hwnnw'n cytuno â'ch barn a byddan nhw'n helpu i symud newid yn ei flaen. Mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu i ddatblygu'r rheoliadau drafft a bydd yn defnyddio'r pwyntiau hyn yn ysgogiadau i annog yr UE i fod yn gyfrifol o ran ei ofynion.

**Goblygiadau Ariannol**

Mae'n rhy gynnar i ragweld beth fydd y goblygiadau ariannol gan y bydd llawer o'r potensial am dâl-dros-ben yn y Rheoliadau Gweithredu nas gwelwyd eto, ond bwriad yr argymhelliad a'n camau gweithredu yw cadw'r costau'n isel ac yn gymesur â'r peryglon.

**Argymhelliad 8**
Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i'r Comisiwn Ewropeaidd egluro'r diffiniad o bridd llawn carbon ac egluro a fyddai'r diffiniad yn arwain at wahardd aredig ar dir nad yw'n cael ei ddiffinio fel tir âr.

**Ymateb: Derbyn**

Rwy'n derbyn yr argymhelliad hwn. Gallai hyn gyfyngu'n sylweddol ar ffermwyr yng Nghymru a bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn i'r Comisiwn egluro beth yw'r diffiniadau o (a) pridd llawn carbon a (b) aredig am y tro cyntaf.

**Goblygiadau Ariannol**

Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu tynnu i lawr o gyllidebau rhaglenni presennol Llywodraeth Cymru.

**Alun Davies AC / AM**
**Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd**
**Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: SF/AD/0598/12

DG Agriculture
European Commission

10th March 2012

**Response to Task and Finish Group Recommendations on CAP Reform Proposals**

I am writing to provide you with a copy of my responses to the National Assembly for Wales Task and Finish Group inquiry into the proposed reforms to the Common Agricultural Policy which the Group sent to you on the 30th January 2012.

The initial findings of the Group are interesting and I hope that both their findings and my responses help inform the discussion.

Yours ever

Alun

**Alun Davies AC / AM**
Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd
Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*